**Welsh NHS Confederation**
**Conffederasiwn GIG Cymru**


Darllenwch y dogfen llawn:
www.nhsconfed.org/political-engagement-wales

Ein **cenhadaeth** yw adeiladu iechyd a llesiant y genedl gyda chefnogaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel a dull a arweinir gan bartneriaeth o ymdrin ag iechyd a llesiant y boblogaeth sy'n cwmpasu'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ganolbwyntio ar bum maes trawsnewid:


# ADEILADU IECHYD A LLESIANT Y GENEDL

## Atal



O drin salwch
i
atal ac ymyrraeth gynnar

## Y gweithlu



O atebion tymor byr
i
gynllunio'r gweithlu yn yr hirdymor

## Ystadau a seilwaith




O offer ac adeiladau sydd wedi dyddio
i
seilwaith addas i'r diben

## Fframweithiau perfformiad ac ariannol



O ganolbwyntio ar ysbytai
i
ofal sylfaenol a gwasanaethau yn y gymuned

## Gofal cymdeithasol



O ansefydlogrwydd mewn gofal cymdeithasol
i
system gofal cymdeithasol cynaliadwy

**Welsh NHS Confederation**
**Conffederasiwn GIG Cymru**

# Er mwyn adeiladu iechyd a llesiant y genedl bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru:

ATAL

## Cyflwyno strategaeth genedlaethol drawslywodraethol i wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau

Bydd hyn yn symud y ffocws oddi wrth drin salwch yn unig tuag at hybu iechyd a llesiant, lleihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, hybu twf economaidd a chefnogi pobl i fod yn bartneriaid gweithredol o ran eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Y GWEITHLU

## Buddsoddi mewn cynllun hirdymor ar gyfer y GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol a'u haddysg

Bydd hyn yn galluogi gweithredu gweithlu aml-broffesiynol sydd wedi'i alluogi'n ddigidol, sy'n llawn cymhelliant, sy'n ymgysylltu ac sy'n cael ei werthfawrogi ar draws y GIG a gofal cymdeithasol.

FFRAMWEITHIAU PERFFORMIAD AC ARIANNOL

## Cyhoeddi fframwaith perfformiad ac ariannol ar y cyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i gael gofal a chymorth di-dor

Dylai'r fframwaith hwn bwysleisio atal, triniaeth effeithiol a chymorth amserol i unigolion, a dylai gael ei fesur yn gyson ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, cefnogi modelau gofal cydgysylltiedig a darparu gofal yn nes at y cartref.

GOFAL CYMDEITHASOL

## Sefydlu adolygiad cyflym annibynnol i ddatblygu cytundeb hirdymor ar gynaliadwyedd y system gofal cymdeithasol

Rhaid i'r adolygiad fynd i'r afael â heriau system gyfan a sefydlogi'r system gofal cymdeithasol drwy gyllid ac adnoddau cynaliadwy. Rhaid iddo hefyd ystyried tâl ac amodau'r gweithlu, mynediad at ofal a ariennir yn gyhoeddus a thryloywder a chysondeb o ran casglu ac adrodd ar ddata gofal cymdeithasol.

YSTADAU A SEILWAITH

## Lansio strategaeth cyfalaf a seilwaith hirdymor

Buddsoddi yn holl seilwaith y GIG a gofal cymdeithasol, gan gynnwys adeiladau, offer a seilwaith digidol; ond hefyd trwy drosoli datblygiadau technolegol ac ymchwil gan gynnwys genomeg a deallusrwydd artiffisial. Bydd hyn yn galluogi'r GIG a gofal cymdeithasol i ysgogi effeithlonrwydd, cynhyrchiant a chynaliadwyedd wrth wella canlyniadau cleifion a'r amgylchedd gwaith ffisegol i staff.

Conffederasiwn GIG Cymru yw'r corff aelodaeth sy'n cynrychioli'r saith bwrdd iechyd lleol, tair ymddiriedolaeth y GIG a dau awdurdod iechyd arbennig sy'n rhan o GIG Cymru.

Welsh NHS Confederation   @welshnhsconfed.bsky.social   www.nhsconfed.org/wales

(H) Conffederasiwn y GIG 2025.  Rhif elusen gofrestredig: 1090329